Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

MAE'N RHAID GWEITHREDU NAWR

YDYCH CHI'N BAROD AM REOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDA'R UE?

DARGANFYDDWCH BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD DRWY DDEFNYDDIO'R OFFERYN GWIRIO

GOV.UK/TOURISM-2021

- Gwiriwch
- Newidiwch
- Ewch

Neges frys gan yr Ysgrifennydd Busnes

Dim ond ychydig **dros fis** sydd i fynd bellach tan ddiwedd y cyfnod pontio. Fel yr Ysgrifennydd Busnes, rwy'n eich annog i **WEITHREDU NAWR** i baratoi ar gyfer ein perthynas newydd gyda'r UE.

Fel busnes yn y sector twristiaeth a lletygarwch, gallwch ddarganfod beth sydd angen ichi ei wneud drwy fynd i gov.uk/tourism-2021. Dyma'r prif gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi:

1. **Paratowch ar gyfer y newidiadau fydd yn ymwneud â theithio i'r UE am resymau busnes neu hamdden; cyflogi staff o'r UE; a diogelu data a throsglwyddo data i'r UE/AEE.**
   Ewch i gov.uk/tourism-2021 a defnyddio'r adnodd gwirio i ddarganfod beth yw y rhain.

2. **Ymweld â'r DU.**
   Ewch i gov.uk/guidance/visiting-the-uk-after-brexit i ddod o hyd i gyfathrebiadau ymarferol sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr o ran ymweld â'r DU ar ôl mis Ionawr 2021.

3. **Teithio i'r UE.**
   Ewch i gov.uk/visit-europe-1-january-2021 i gael cyngor ar wladolion y DU yn teithio i'r UE.

4. **Os ydych yn bwriadu cyflogi o dramor o'r 1af o Ionawr 2021, bydd angen i chi gofrestru fel noddwr trwyddedig.**
   Efallai na fyddwch yn gallu cyflogi pobl o'r tu allan i'r DU yn gyfreithiol os nad oes gennych drwydded. Bydd angen i weithwyr newydd o'r tu allan i'r DU gwrdd â gofynion swydd, cyflog ac iaith newydd hefyd. Ni fydd hwn yn effeithio ar ddinasyddion Iwerddon a'r rhai sy'n gymwys o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE.

GALL Y NEWIDIADAU GYMRYD MWY O AMSER I'W GWEITHREDU NAG YR YDYCH CHI'N MEDDWL, FELLY DECHREUWCH HEDDIW.

Mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys webinarau penodol i'ch arwain drwy'r newidiadau. Mae'r rhain ar gael i'w gwylio ar: **gov.uk/transition-webinars**. Dylech hefyd wirio gyda'ch cyflenwyr a'ch cwsmeriaid eu bod nhw hefyd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae hwn yn gyfnod heriol, ond mae'r cyfnod pontio yn dod i ben ar yr 31ain o Ragfyr 2020 ac **NI FYDD ESTYNIAD**. Oni bai eich bod yn gweithredu nawr, mae risg y bydd ymyriadau i weithrediadau eich busnes. Bydd y Llywodraeth yno i'ch helpu i gymryd mantais o'r nifer o gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil bod yn genedl fasnachu annibynnol.

Yn gywir,

Yr Gwir Anh. Alok Sharma MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

SGANIWCH I WRANDO AR EIN GWEMINARAU

Gwiriwch
Newidiwch
Ewch

Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

MAE RHEOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDAG EWROP YN DECHRAU AR 01 INOAW 2021

MAE CAMAU SYDD ANGEN I'CH BUSNES EU CYMRYD NAWR AR GOV.UK/TOURISM-2021

SSL-TOR-C